COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MAWRTH, 21 MAI 2019, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd DRW Lewis – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| PA Davies | RM James | B Jones | G Thomas |
| AA Pucella | JE Williams | MJ Kearn | A Hussain |
| TH Beedle | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

JE Lewis a/ac JR McCarthy

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Andrea Lee | Uwch Cyfreithiwr |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Daniel Cook | Swyddog Polisi Trwyddedu |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |

29. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

30. PENODI IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU A DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyflwynodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu adroddiad a oedd yn cynnig aelodaeth o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, 2019.

Eglurodd fod y cynigion yn ofynnol ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â cheisiadau trwyddedu cyffredinol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â thrwyddedu tacsis. Gellir dod o hyd i'r ystod o swyddogaethau o fewn Cyfansoddiad y Cyngor yn rhan 3.

Eglurodd y derbyniwyd adroddiad yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 15 Mai, a oedd yn nodi aelodaeth o Bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 a'r Pwyllgor Trwyddedu.

Cynigodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu, felly fod y Pwyllgor yn parhau â'r trefniadau presennol ac yn cymeradwyo ffurfio'r ddau banel yn eistedd ar sail rota.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu wrth Aelodau am ymholiad diweddar gan Aelod ynghylch cydbwysedd gwleidyddol yr Is-bwyllgorau ond eglurodd nad oedd hynny'n ofynnol i Is-bwyllgorau gan fod y prif Bwyllgor eisoes yn cydymffurfio â'r cydbwysedd gwleidyddol gofynnol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor:

(1) Yn cymeradwyo ffurfio'r Is-bwyllgorau fel a ganlyn;

Is-bwyllgor (A)
- Cyng. D Lewis (Cadeirydd)
- Cyng. T Beedle
- Cyng. R Collins

- Cyng. M Kearn
- Cyng. D Owen
- Cyng. A Pucella
- Cyng. J Williams

Is-bwyllgor (B)
- Cyng. PA Davies (Is-gadeirydd)
- Cyng. RM James
- Cyng. B Jones
- Cyng. JE Lewis
- Cyng. J McCarthy
- Cyng. G Thomas
- Cyng. A Hussain

(2) Yn parhau â'r trefniadau presennol o ddau banel yn eistedd ar sail rota.

Pe bai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd yn methu â mynychu eu cyfarfodydd Is-bwyllgor priodol, byddai Cadeirydd yn cael ei ethol gan y rhai hynny sy'n bresennol.

31. CANLLAWIAU DIWYGIEDIG AR BENDERFYNU AR ADDASRWYDD YMGEISWYR A DEILIAID TRWYDDEDAU YN Y MASNACHAU HACNI A HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Swyddog Polisi Trwyddedu adroddiad a oedd yn darparu manylion ynglŷn â chanllawiau a gyhoeddwyd gan y sefydliad trwyddedu ar benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y masnachau hacni a hurio preifat, a gofynnodd am gymeradwyaeth i roi'r canllawiau ar waith.

Nododd fod y Sefydliad Trwyddedu, ym mis Ebrill 2018, wedi cyhoeddi dogfen yn dwyn y teitl 'Canllawiau Diwygiedig ar Benderfynu ar Addasrwydd Ymgeiswyr a Deiliaid Trwyddedau yn y Masnachau Hacni a Hurio Preifat' ("Y Canllawiau") a oedd ynghlwm â'r adroddiad fel Atodiad A.

Eglurodd fod ymgynghori eang ledled y wlad ar gynnwys y canllawiau gyda rhanddeiliaid gan gynnwys Cynghorwyr, Swyddogion Trwyddedu, Cyfreithwyr, y Masnachau Hacni a Hurio Preifat, Academïau, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu.

Eglurodd y Swyddog Polisi Trwyddedu y bydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio ynghyd â'r Gwasanaethau Rheoleiddiol a Rennir ac mai Pen-y-bont ar Ogwr fyddai'r Awdurdod lleol cyntaf i wneud hynny.

Gwnaeth y Swyddog Polisi Trwyddedu gyfeirio Aelodau at argymhelliad 9.1 o'r adroddiad a chroesawodd unrhyw gwestiynau.

Gofynnodd Aelod a oedd yna unrhyw newid ynglŷn â'r ffordd y mae'r Swyddogion Trwyddedu yn dod i wybod am euogfarnau.

Eglurodd y Swyddog Cyfreithiol na fyddai yna unrhyw newid ac y byddai'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r gwiriad Trwyddedau drwy'r DVLA yn cael eu defnyddio fel y dulliau safonol.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Trwyddedu yn tynnu'r polisi cyfredol yn ôl a oedd yn ymwneud â pherthnasedd euogfarnau a thrwyddedu cyn-droseddwyr, ac yn defnyddio'r canllawiau newydd AR benderfynu ar addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y masnachau hacni a hurio preifat sydd ynghlwm fel Atodiad B ar gyfer

ceisiadau trwyddedu a dderbynnir ar ôl y cyfarfod hwn (nid ar ôl 3 Mehefin 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad)

32. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 09:50